WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyhoeddwyd: Hydref 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 491A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Rees, John Roberts, Rob Hathaway a Katherine Simmons o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus 5

Argymhellion a chynigion ar gyfgwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei amcanion ar y cyfan, er hyn ni chyflawnwyd targedau perfformiad i wella Gwasanaethau Electronig 8

Mae gwell arweinyddiaeth o ran gwasanaethau cynllunio yn cyfrannu at foddhad cwsmeriaid da, ansawdd cynlluniau a darpariaeth tai fforddiadwy, ond nid yw'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu â pharciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru ac yn sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn 12

Gwerthusodd yr Awdurdod ei berfformiad a chyflwynodd adroddiad arno a chyhoeddodd ei gynlluniau gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol 13

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 15

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 16

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) ers i'r adroddiad diwethaf o'i fath gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys, lle bo'n briodol, grynodeb o ganfyddiadau allweddol Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) fel 'rheoleiddiwr perthnasol' o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (y Mesur). Nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn yr Awdurdod gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn yr adroddiad hwn a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

5 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod yn debygol o fodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2016-17.

6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Gwnaethom nodi, yn 2014-15, fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei amcanion ar y cyfan, er hyn ni chyflawnwyd targedau perfformiad i wella Gwasanaethau Electronig.

b Gwnaethom waith yn y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru er mwyn asesu i ba raddau yr oeddent yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon gyda llai o arian. O fewn yr Awdurdod hwn, nodwyd bod gwell arweinyddiaeth o ran gwasanaethau cynllunio yn cyfrannu at foddhad cwsmeriaid da a darpariaeth tai fforddiadwy, ond nid yw'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru ac yn sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn.

c Gwerthusodd yr Awdurdod ei berfformiad a chyflwynodd adroddiad arno a chyhoeddodd ei gynlluniau gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; acargymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, nodwyd materion â llai o flaenoriaeth, sef cynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ac fe'u nodir isod. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

C1 Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru i ddatblygu:

- data cyson, a chymharol gadarn ar gostau a nifer a defnyddio hyn i weld a yw'n darparu gwerth am arian ai peidio; a
- chanlyniadau perthnasol er mwyn helpu i fesur y cyfraniad tuag at gyflawni nod datblygu cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â newid tymor hwy.

Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud mewn cydweithrediad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y profiad o fesur a chymharu costau drwy Benaethiaid Cynllunio'r Alban a Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Lloegr.

C2 Cynyddu lefelau cydweithio strategol a gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gydag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru, gan gynnwys ymchwilio i gyfleoedd i leihau costau'r gwasanaeth cynllunio a'r opsiynau ar gyfer cynllunio'r gweithlu mewn ffordd agosach.

C3 Adolygu blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod er mwyn sicrhau y rhoddir digon o ffocws ar ddiwallu anghenion cymunedau lleol.

9 Yn ogystal, nododd Comisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn ei hadroddiad arolygu a gyflwynwyd i'r awdurdod yn ystod y flwyddyn. Mae ar gael ar wefan y Comisiynydd.

# Adroddiad Manwl



## Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei amcanion ar y cyfan, er hyn ni chyflawnwyd targedau perfformiad i wella Gwasanaethau Electronig

10 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar berfformiad yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

11 Lluniodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ddau gynllun yn ymwneud â 2014-15. Mae'r cyntaf, 'Cynllun Busnes a Gwelliant 2014/15' yn nodi ei Amcanion Gwella a mesurau perfformiad ar gyfer 2014-15. Mae'r ail, 'Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant ar gyfer 2014/15' yn adrodd ar gynnydd yn erbyn gweithgareddau a pherfformiad yn ystod 2014-15. Roedd gan yr Awdurdod bum Amcan Gwella ar gyfer 2014-15. Ategwyd y rhain gan fesurau perfformiad penodol a chyfres o ddangosyddion lleol, a oedd yn canolbwyntio ar weithgareddau gwaith allweddol.

12 Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny a nodwyd gan yr Awdurdod fel amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a gasglwyd gan yr Awdurdod a allai ddangos cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hyn.

**Amcan Gwella Un: Gweithredu'n effeithiol gyda llai o adnoddau**

Mae'r Awdurdod yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau gan ddarparu gwasanaeth i bawb o fewn yr adnoddau gostyngedig sydd ar gael.

13 Cafodd yr Amcan Gwella 'Gweithredu'n effeithiol gyda llai o adnoddau' ei gynnwys gyntaf yn 2014-15. Gwnaed hyn mewn ymateb i heriau ariannol y disgwylid iddynt wynebu'r Awdurdod ac er mwyn sicrhau bod system ar waith i fonitro cynnydd o ran cyflawni ei Strategaeth Ariannol. Cafwyd dau fesur perfformiad ar gyfer yr amcan hwn a saith gweithgaredd gwaith allweddol (yn ymwneud â lleihau costau presennol neu gynyddu/cyflwyno taliadau am ddarparu gwasanaethau). Bu'r cynnydd cyffredinol tuag at gyflawni'r amcan hwn yn dda, gyda'r Awdurdod yn cyflawni ei dargedau o ran gwneud arbedion sylfaenol o £511,700 a mabwysiadu ei strategaeth ariannol ar gyfer 2014-15.

14 Bu'r cynnydd o ran y gweithgareddau ategol yn fwy amrywiol, gyda thri phrosiect yn cael eu hystyried yn llwyddiannus neu'n mynd rhagddynt, dau yn rhannol lwyddiannus a dau yn aflwyddiannus. Lle'r oedd yr Awdurdod o'r farn bod prosiectau yn aflwyddiannus neu ddim ond yn rhannol lwyddiannus rhoddodd esboniad naratif yn ei Adroddiad Blynyddol. Amlinellodd hwn yr amgylchiadau penodol a nododd y camau adferol angenrheidiol.

**Amcan Gwella Dau: Cymunedau**

Bydd gan y Cynghorau Cymuned a'n rhanddeiliaid allweddol ddealltwriaeth well o'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud a nodweddion arbennig y Parc.

15 Parhaodd yr Awdurdod i gael adborth cadarnhaol gan Gynghorau Cymuned a rhanddeiliaid o ran eu dealltwriaeth o'r hyn a wna'r Awdurdod a nodweddion arbennig y parc. Roedd gan bob ymatebydd ddealltwriaeth dda. Ail fesur perfformiad yr Awdurdod oedd canran y bobl anabl, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl o ardaloedd cymunedau yn gyntaf ger y Parc sy'n mynychu digwyddiadau wedi'u trefnu gan yr Awdurdod, megis teithiau tywys, sy'n dweud bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud a nodweddion arbennig y Parc. Ar gyfer y mesur hwn, methodd yr Awdurdod â chyflawni ei darged o 98 y cant o ymatebwyr a oedd â dealltwriaeth dda. Fodd bynnag, gyda 96 y cant o ymatebwyr â dealltwriaeth dda o'r hyn a wna'r Awdurdod, dangosodd welliant cyson o gymharu â pherfformiad y tair blynedd flaenorol.

16 Bu'r cynnydd yn erbyn y gweithgareddau allweddol ar gyfer yr Amcan Gwella Cymunedau hefyd yn gadarnhaol, gyda 10 prosiect yn cael eu hystyried yn llwyddiannus a dau yn cael eu hystyried yn rhannol lwyddiannus. Roedd y dangosyddion lleol hyn yn cynrychioli amrywiaeth o fentrau cydweithio rhwng yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a phartneriaid lleol/cenedlaethol. Hefyd, gweithredodd yr Awdurdod y cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol a pharhaodd i fynd ati i ymgysylltu â phobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl o ardaloedd cymunedau yn gyntaf cyfagos â'r Parc.

**Amcan Gwella Tri: Perfformiad**

a) Bydd y trefniadau rheoli perfformiad yn fwy effeithiol i sicrhau ein bod yn cynnal safon ein gwasanaeth yn ystod cyfnod lle bo adnoddau'n lleihau.

b) Bydd gan staff ac aelodau ddealltwriaeth well o sut mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella'r Awdurdod.

17 Bu'r cynnydd wrth weithio tuag at drydydd Amcan Gwella'r Awdurdod yn gymysg, gyda'r Awdurdod dim ond yn cyflawni un o'r pedwar targed mesur perfformiad. O fewn y gweithgaredd, asesodd yr Awdurdod fod un prosiect wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus, a bod y llall yn rhannol lwyddiannus.

18 Parhaodd yr Awdurdod i gyflawni ei darged 100 y cant ar gyfer aelodau sy'n ystyried bod yr adroddiadau y maent yn eu cael ynghylch cynnydd ar yr amcanion gwella'n amserol ac yn effeithiol. Hefyd cwblhaodd yr holl arfarniadau staff, gyda Rheolwyr Llinell yn esbonio'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ystod y sesiynau hyn. Fodd bynnag, dim ond 33 y cant a nododd eu bod yn fodlon iawn â lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth y maent yn ei chael gan eu rheolwyr llinell yn erbyn targed o 43 y cant. Mae hyn ond ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y pedair blynedd diwethaf, ac o'i chyfuno â'r 62 y cant a oedd yn 'fodlon' mae'n golygu bod 95 y cant o staff naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn â lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth y maent yn ei chael. O 2015-16 ymlaen mae'r Awdurdod wedi ehangu'r dangosydd hwn i gynnwys staff sy'n fodlon â lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth y maent yn ei chael, felly mae'n adlewyrchu'r darlun cyfan.

19 Dywedodd 94 y cant o staff ac aelodau fod ganddynt ddealltwriaeth dda o’r ffordd mae’r hyn y maent yn ei wneud yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella’r Awdurdod. Nid oedd hyn yn cyflawni targed yr Awdurdod o 98 y cant (a gyflawnwyd yn 2013-14), er i’r Awdurdod nodi ansicrwydd parhaus a newidiadau yn y gweithle fel ffactor posibl. Nododd yr Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant y bydd yr Awdurdod yn monitro’r sefyllfa wrth fynd ymlaen er mwyn asesu a oes angen cymryd camau pellach.

20 Cafodd data ar gyfer y mesur perfformiad olaf eu casglu drwy arolwg staff di-enw. Nododd mai dim ond 69 y cant o staff a oedd yn cytuno bod cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau, yn erbyn targed o 88 y cant. Fe’i graddiwyd yn ‘goch’ ac roedd bump y cant islaw canlyniad isaf blaenorol yr Awdurdod yn 2011-12. Roedd hefyd yn golygu mai dim ond yn rhannol lwyddiannus y gellid ystyried gweithgarwch i gefnogi’r amcan gwella hwn, sef monitro cyflawniad y Cynllun Hyfforddiant. Nododd yr Awdurdod mai’r rheswm dros y canlyniad hwn oedd gostyngiad yng nghanran y staff a mymryn o oedi o ran sicrhau bod yr holl staff wedi cael eu gwerthuso, gan effeithio ar y terfynau amser ar gyfer cymeradwyo’r cynllun hyfforddiant.

**Amcan Gwella Pedwar: Gwasanaethau Electronig**

a) Mae’r ystod a’r math o wasanaethau sydd ar gael yn electronig yn unol ag anghenion y cyhoedd.

b) Bydd mwy o ddefnyddwyr y gwasanaeth electronig yn fodlon iawn â’u profiad.

21 Yn y Cynllun Gwelliant, mae’r Awdurdod yn myfyrio ar y gwaith o ddatblygu’r wefan fel adnodd i gyfleu gwybodaeth, cyfathrebu a chynnal trafodion. O ganlyniad, canolbwyntiodd y mesurau perfformiad ar gyfer yr amcan hwn ar: ymwelwyr â’r wefan, problemau technegol a nodwyd a lefelau bodlonrwydd ag ansawdd ac ystod y gwasanaethau a ddarperir yn electronig. Roedd cynnydd yn erbyn yr Amcan Gwella hwn yn wael ac ni lwyddwyd i gyflawni unrhyw un o’r targedau ar gyfer y tri tharged mesur perfformiad.

22 O’r wyth gweithgaredd sy’n cefnogi’r amcan hwn, roedd dau brosiect yr oedd yr Awdurdod yn eu hystyried yn llwyddiannus, roedd tri yn rhannol lwyddiannus ac roedd tri nad oeddent yn llwyddiannus. Mae’r Awdurdod wedi nodi nifer o ffactorau sydd wedi cyfrannu at ddiffygion o ran cyflawni’r canlyniadau hyn. Yn eu plith roedd llai o adnoddau staff a’r wefan newydd yn cael ei hailgynllunio.

**Amcan Gwella Pump: Polisi Cynllunio**
Bydd gan bobl ddealltwriaeth well o’r polisïau cynllunio yn y Cynllun Datblygu Lleol.

23 Defnyddiodd yr Awdurdod amrywiaeth o fentrau mewnol ac allanol yn 2014-15 i weithio tuag at gyflawni Amcan Gwella pump. Mae ei fesurau perfformiad yn adlewyrchu’r dull gweithredu mewnol ac allanol hwn. Ymhlith y mesurau mae dealltwriaeth defnyddwyr y gwasanaeth, Aelodau Cynghorau Cymuned/Asiantau, ac Aelodau’r Awdurdod Parc Cenedlaethol o bolisïau cynllunio a chanran y ceisiadau dilys. Dim ond dealltwriaeth defnyddwyr y gwasanaeth o bolisïau cynllunio a fethodd â chyflawni’r targed perfformiad o 85 y cant, gydag 81 y cant yn nodi bod ganddynt well dealltwriaeth. Mae hyn ychydig yn well na’r flwyddyn flaenorol, ond mae’n cynrychioli tuedd gymharol statig o ran perfformiad. Fodd bynnag, mae canran y ceisiadau dilys fel cyfanswm o’r holl geisiadau sy’n dod i law wedi cynyddu’n gyson bob blwyddyn ers 2011-12 ac, yn 2014-15, rhagorwyd ar y targed o 68 y cant 10 y cant.

24 Roedd pedwar gweithgaredd yn cefnogi’r Amcan Gwella hwn. Yn eu plith roedd trefnu gweithdai, diweddaru’r wefan, darparu hyfforddiant DPP a chasglu/dadansoddi gwybodaeth fonitro fel sy’n briodol. Roedd y rhan fwyaf o’r rhain yn weithgareddau parhaus a gyflawnwyd yn 2014-15 ac felly fe’u hystyriwyd yn llwyddiannus.

25 Mae’r Awdurdod yn cydweithredu ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru er mwyn mynd ati i adrodd ar gynlluniau gwelliant mewn ffordd wahanol. Bydd Cynllun Corfforaethol 2016-17 yn cynnwys amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol newydd ar y cyd ag Amcanion Corfforaethol a Gwella. Drwy gysoni a diwygio ei amcanion gwella â’r saith nod llesiant, mae’r Awdurdod yn anelu at weithredu mewn ffordd fwy unedig.

## Mae gwell arweinyddiaeth o ran gwasanaethau cynllunio yn cyfrannu at foddhad cwsmeriaid da, ansawdd cynlluniau a darpariaeth tai fforddiadwy, ond nid yw'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu â pharciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru ac yn sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn

26 Ym mis Hydref 2015, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

27 Mae Llywodraeth Cymru wedi gostwng cyllid i'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn ddiweddar. Daeth hyn yn weithredol yn ystod 2014-15, gyda gostyngiadau pellach yn ofynnol yn 2015-16 a thu hwnt o bosibl. Mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru bellach yn gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut i ddelio â llai o gyllid. O gofio'r gwariant cymharol uchel ar ddarparu gwasanaethau cynllunio mewn awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru o gymharu â chynghorau, mae'r gostyngiadau yn y cyllid cyffredinol yn peri risgiau penodol. Yn ystod 2015-16, gwnaethom ystyried sut mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn ymdopi â'r risg hon, gan asesu i ba raddau yr oeddent yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon gyda llai o arian.

28 Daethom i'r casgliad fod gwell arweinyddiaeth o ran gwasanaethau cynllunio yn cyfrannu at foddhad cwsmeriaid da, ansawdd cynlluniau a darpariaeth tai fforddiadwy, ond nid yw'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru ac yn sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn.

29 Daethom i'r casgliad hwnnw am fod gweledigaeth glir a chyffredin yr Awdurdod wedi'i hategu gan arweinyddiaeth well, er nad yw'r Awdurdod wedi nodi'n glir ei flaenoriaethau lleol ar gyfer ei wasanaeth cynllunio. Mae boddhad cwsmeriaid yn dda, mae costau rheoli datblygu yn isel ar y cyfan ac mae rhai meysydd cyflawni yn perfformio'n dda ond, er bod gwell cydweithio, nid yw'n ddigon strategol. Mae'r Awdurdod wedi gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â rheoli perfformiad er nad yw'n canolbwyntio ddigon ar adolygu blaenoriaethau, gwerth am arian na chanlyniadau ar gyfer ei wasanaeth cynllunio.

30 Ystyriodd yr Awdurdod yr adroddiad hwn yng nghyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 9 Rhagfyr 2015. Croesawodd yr Awdurdod yr adroddiad gan gydnabod y cynnydd cadarnhaol a wnaed a'r meysydd i'w gwella. Mae'r Awdurdod wedi gofyn am adroddiad pellach neu hyfforddiant ar y risgiau sy'n gysylltiedig â gwrthdroi argymhellion swyddog.

## Gwerthusodd yr Awdurdod ei berfformiad a chyflwynodd adroddiad arno a chyhoeddodd ei gynlluniau gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol

31 Ym mis Tachwedd 2015 rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod wedi archwilio Cynllun Gwella'r Awdurdod yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a Chod Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, nododd y dystysgrif hefyd fod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

32 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- a cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- b o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- c drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- ch chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

33 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

34 Ym mis Mehefin 2015 rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod wedi archwilio Cynllun Gwella'r Awdurdod yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a Chod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, nododd y dystysgrif fod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

35 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

a wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a

c gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

36 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

37 Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

38 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

39 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran rhoi'r cynllun iaith ar waith. Mae'r comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen. Cyflwynodd y Comisiynydd 'Ymateb i Adroddiad Monitro Blynyddol 2014/15' i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Gorffennaf 2015. Ym mis Medi 2015 cyflwynodd y Comisiynydd Hysbysiad Cydymffurfio, a oedd yn rhestru'r safonau y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy o fewn chwech neu 12 mis.

40 Mae adroddiadau arolygu a llythyrau a gyflwynwyd gan y Comisiynydd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ar gael ar wefan y Comisiynydd.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr E Williams
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Annwyl Emyr

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2014-15**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Awdurdod yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 30 Medi 2015. Ni nododd yr archwiliad unrhyw wallau perthnasol yn y datganiadau ariannol drafft, er bod nifer o fân ddiwygiadau a gymerodd gryn dipyn o amser i'w clirio ac yna eu diweddaru yn y datganiadau ariannol.

Yn dilyn gwelliannau ers cau'r cyfrifon yn 2013-14, cefais wybodaeth ar gyfer 2014-15 mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar fy ngwaith. Fodd bynnag, trafodwyd gwelliannau pellach i'r broses o gau ac archwilio cyfrifon gyda'r Rheolwr Cyllid. Bydd y tîm archwilio yn parhau i weithio gyda swyddogion allweddol eleni er mwyn datblygu'r meysydd lle gellir gwneud y gwelliannau hyn fel bod y broses gyffredinol yn gwella ar gyfer 2015-16.

**Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

Mae'r Awdurdod yn parhau i wella sawl agwedd ar y Parc ac mae wedi ymateb yn effeithiol i doriadau mewn cyllid, er y gallai wneud mwy i ddatblygu rhai prosesau cefnogol.

**Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau i'r Awdurdod ar 30 Medi 2015.**

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Richard Harries
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru